***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 581 (Cy. 53)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *27 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a pharagraff 9 o Atodlen 1 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

**Enwi, cychwyn, a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Taliadau wythnosol i weithwyr gofal**

**2.** Ym mharagraff 1(c) o'r Atodlen i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) 1992(**3**) yn lle "£36"(**4**) rhodder "£44".

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) Trosglwyddodd y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 , a pharagraff 9 o Atodlen 1 iddi o ran Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2(a) o, ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/552.
(**4**) Wedi'i fewnosod gan O.S.1998/294.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

27 Chwefror 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) 1992 yn darparu ar gyfer cyflawni'r amodau pan fo gweithiwr gofal yn cael ei ddiystyru at ddibenion gostyngiad, sy'n cael yr effaith o ostwng swm y dreth gyngor sy'n daladwy am annedd y mae'r gweithiwr gofal yn preswylio ynddi. Un o'r amodau hynny yw nad yw'r gweithiwr gofal yn cael ei dalu fwy na swm wythnosol dynodedig. Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn codi'r swm hwnnw o £36 i £44.

Paratowyd arfarniad rheoliadol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, ac mae ar gael o Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Yr Adran Llywodraeth Leol a Diwylliant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (ffôn 02920825111).